

Corff Llywodraethol Ysgolion Pen-y-bryn ac Abercaseg

Adroddiad Blynyddol i'r Rhieni/Gwarcheidwaid

Cyflwynir yr adroddiad hwn ar sut y cyflawnwyd swyddogaethau'r llywodraethwyr yn ystod 2016-2017.

Ers Ionawr 2017, mae Ysgol Abercaseg ac Ysgol Pen-y-bryn wedi ffedereiddio ac felly o'r dyddiad hwn un corff llywodraethol sydd dros y ddwy ysgol. Bu Corff Llywodraethol y ddwy ysgol yn ymgynghori gyda'i gilydd, gyda'r Sir, gyda rhieni/gwarcheidwaid a chyda'r plant er mwyn dod i'r penderfyniad mai ffedereiddio oedd y penderfyniad gorau ar gyfer dyfodol y ddwy ysgol.

Bydd rhannau o'r adroddiad hwn yn trafod Ysgol Abercaseg ac Ysgol Pen-y-bryn arwahan, yn ystod tymor yr Hydref, 2016 a bydd y gweddill yr adroddiad am y ddwy ysgol o dan un corff llywodraethol.

Tymor yr Hydref, 2016

Cadeirydd Ysgol Abercaseg: Mr Rheinallt Puw, Cartrefle, Ffordd Pant, Bethesda, LL57 3PA

Clerc Ysgol Abercaseg: Mrs Eirian Wynne, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH

Cadeirydd Ysgol Pen-y-bryn: Mr Dylan Davies, Cae Bryn, Bethesda, LL57 3RD

Clerc Ysgol Pen-y-bryn: Miss Laura Millican, Ysgol Pen-y-bryn, Bethesda, LL57 3BE

Tymor y Gwanwyn a thymor yr Haf, 2017

Cadeirydd Ysgolion Pen-y-bryn ac Abercaseg: Mrs Orina Pritchard, 7 Rhos y Nant, Bethesda, LL57 3PP

Clerc Ysgolion Pen-y-bryn ac Abercaseg: Miss Laura Millican, Ysgol Pen-y-bryn, Bethesda, LL57 3BE

Pwy oedd aelodau'r Corff Llywodraethol Ysgol Abercaseg yn nhymor yr Hydref, 2016?

<u>Enw</u>	<u>Cynrychioli</u>	<u>Dyddiad ethol/Apwyntio</u>	<u>Diwedd eu cyfnod</u>
Hedd Rhys	Rhieni/gwarcheidwaid	09/14	12/16
Paul Painter	Rhieni/gwarcheidwaid	09/15	12/16
Emma Pritchard	Rhieni/gwarcheidwaid	09/13	12/16
Sioned Ryder	Rhieni/gwarcheidwaid	09/13	12/16
Emyr Roberts	Cymunedol	09/12	12/16
Orina Pritchard	Cymunedol	09/15	12/16
Bryan Griffiths	Cymunedol	09/13	12/16
Rheinallt Puw	Awdurdod	09/14	12/16
Ann Williams	Awdurdod	09/12	12/16
Linda Brown	Awdurdod	09/12	12/16
Gwilym Owen	Cyngor Cymuned	09/13	12/16
Yvonne Griffith	Athrawon	09/15	12/16
Edwina Griffith	Staff Ategol	09/15	12/16
Ceren Lloyd	Pennaeth	-	-

Pwy oedd aelodau'r Corff Llywodraethol Ysgol Pen-y-bryn yn nhymor yr Hydref, 2016?

<u>Enw</u>	<u>Cynrychioli</u>	<u>Dyddiad ethol/Apwyntio</u>	<u>Diwedd eu cyfnod</u>
Jill Oliver	Rhieni/gwarcheidwaid	09/14	08/18
Dylan Davies	Rhieni/gwarcheidwaid	09/14	08/18
Cari Griffiths	Rhieni/gwarcheidwaid	09/15	08/19
Gwyndaf Owen	Rhieni/gwarcheidwaid	12/15	11/19
Eifion Rowlands	Cymunedol	11/15	10/19
Marian Arman	Cymunedol	09/16	08/20
Janet Jones	Cymunedol	09/14	08/18
Elin Edwards	Awdurdod	09/14	08/18
Caren Brown	Awdurdod	12/12	11/16
Ann Williams	Awdurdod	08/16	07/20
Mary Jones	Cyngor Cymuned	06/15	05/19
Ffion Jones	Athrawon	09/16	08/18
Caryl Griffiths	Staff Ategol	09/16	08/18
Ceren Lloyd	Pennaeth	-	-

Pwy oedd aelodau'r Corff Llywodraethol Ysgolion Pen-y-bryn ac Abercaseg?

<u>Enw</u>	<u>Cynrychioli</u>	<u>Dyddiad ethol/Apwyntio</u>	<u>Diwedd eu cyfnod</u>
Cari Griffiths	Rhieni/gwarcheidwaid	01/17	12/20
Gwyndaf Owen	Rhieni/gwarcheidwaid	01/17	12/20
Manon Williams	Rhieni/gwarcheidwaid	01/17	12/20
Emma Pritchard	Rhieni/gwarcheidwaid	01/17	12/20
Marian Arman	Cymunedol	01/17	12/20
Janet Jones	Cymunedol	01/17	12/20
Orina Pritchard	Cymunedol	01/17	12/20
Hedd Rhys	Cymunedol	01/17	12/20
Mary Jones	Cyngor Cymuned	01/17	12/20
Einir Williams	Awdurdod	01/17	12/20
Ann Williams	Awdurdod	01/17	12/20
Rheinallt Puw	Awdurdod	01/17	12/20
Linda Brown	Awdurdod	01/17	12/20
Ffion Jones	Athrawon	01/17	08/18
Yvonne Griffiths	Athrawon	01/17	08/18
Caryl Griffith	Staff Ategol	01/17	08/18
Edwina Griffith	Staff Ategol	01/17	08/18
Ceren Lloyd	Pennaeth	01/17	-

Pryd fydd yr etholiad nesaf am riant-lywodraethwr?

Mae'n debyg mai ym mis Rhagfyr 2020 y bydd angen cynnal etholiad ar gyfer penodi riant-lywodraethwr.

Pryd fu'r Corff yn cyfarfod?

Ysgol Abercaseg: 05/10/2016, 30/11/2016

Ysgol Pen-y-bryn: 29/09/2016, 01/12/2016

Ysgolion Pen-y-bryn ac Abercaseg: 12/01/2017, 17/01/2017, 29/03/2017, 06/07/2017

Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn bob yn ail rhwng y ddwy ysgol.

Beth fu'r sefyllfa o ran plant a staffio?

Ysgol Abercaseg:

Agorodd yr ysgol ym Medi 2016 gyda 142 o blant ar y gofrestr. Ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, roedd 144 ar y gofrestr.

Cyflogwyd 5 aelod o staff addysgu.

Ysgol Pen-y-bryn:

Agorodd yr ysgol ym Medi 2016 gyda 132 o blant ar y gofrestr. Ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, roedd 135 ar y gofrestr.

Cyflogwyd 5 aelod o staff addysgu.

Tymhorau a sesiynau

Ysgol Abercaseg:

Sesiynau'r ysgol: 9:00-12:00 ac 1:00 – 3:00.

(Agorir y drysau am 8:50yb)

Ysgol Pen-y-bryn:

Sesiynau'r ysgol: 9:00-12:00 ac 12:45-3:15.

(Agorir y drysau am 8:50yb)

Tymor yr hydref 2016 -	Medi 1 ^{af} – Rhagfyr 16 ^{eg}
Hanner tymor yr hydref 2016 -	Hydref 24 ^{ain} – Hydref 28 ^{ain}
Gwyliau'r Nadolig 2016 -	Rhagfyr 19 ^{eg} 2016 – Ionawr 2 ^{il} 2017
Tymor y gwanwyn 2017 -	Ionawr 3 ^{ydd} – Ebrill 7 ^{fed}
Hanner tymor y gwanwyn 2017 -	Chwefror 20 ^{fed} – Chwefror 24 ^{ain}
Gwyliau'r Pasg 2017 -	Ebrill 10 ^{fed} – Ebrill 21 ^{ain}
Tymor yr haf 2017 -	Ebrill 24 ^{ain} – Gorffennaf 21 ^{ain}
Calan Mai 2017 -	Mai 1 ^{af}
Hanner tymor Sulgwyn 2017 -	Mai 29 ^{ain} – Mehefin 2 ^{il}
Gwyliau'r haf 2017 -	Gorffennaf 24 ^{ain} – Awst 31 ^{ain}

Yn ogystal â'r uchod bu'r ysgol ar gau i'r plant am bum diwrnod ychwanegol ar gyfer Hyfforddiant Mewn Swydd: Medi 1^{af}, Medi 2^{il}, Hydref 31^{ain}, Ionawr 3^{ydd} a Chwefror 27^{ain}.

Beth ddigwyddodd yn yr ysgol o ran Anghenion Addysgol Ychwanegol (ADY)?

Mae'r ysgolion yn gweithredu polisi o geisio adnabod anghenion addysgol ychwanegol mor fuan â phosib yng ngyrfa'r plentyn yn yr ysgol - gan gysylltu ac ymgynghori â'r rhieni/gwarcheidwaid. O adnabod yr anghenion bydd rhaglen a chynllun arbennig yn cael eu creu i helpu'r plentyn unigol gyda'i broblemau ei hun. Bydd y cynlluniau yn cael eu hadolygu gyda'r rhieni/gofalwyr a'r staff yn dymhorol.

Derbyniodd gyd-cysylltydd ADY yr ysgolion (Mrs Yvonne Griffiths yn Ysgol Abercaseg a Mrs Bethan Hughes yn Ysgol Pen-y-bryn) hyfforddiant a ddarparwyd gan yr Awdurdod. Defnyddiwyd arian a ddatganolwyd i ysgolion ynghyd ag arian wrth gefn i gyflogi cymorthyddion ADY i dargedu anghenion penodol ar hyd y flwyddyn. Hefyd, archebwyd adnoddau darllen yn y ddwy iaith i'w defnyddio gyda'r dysgwyr dan sylw.

Mae Llywodraethwr penodedig (Mrs Caren Brown yn ystod tymor yr hydref, 2016 a Mrs Orina Pritchard tymor y gwanwyn a thymor yr haf, 2017) yn gyfrifol am y maes hefyd a daethant i ymweld â'r ysgol er mwyn trafod y gweithdrefnau a'r systemau oddi fewn i'r ysgol. Gall unrhyw riant/gwarcheidwad weld y polisi manwl yn yr ysgolion.

Beth yw sefyllfa ieithyddol yr ysgol?

Ethos Gymraeg a Chymreig sydd i'r ddwy ysgol. Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2, mae disgwyl i bob plentyn fod yn gwbl ddwyieithog, yn unol â pholisi iaith y Sir. Os daw unrhyw blentyn i'r ysgol ble nad ydynt yn medru'r Gymraeg, yna cânt fynychu Uned Iaith Ysgol Maesincla am gyfnod o dymor.

Beth wnaeth yr ysgol yn y gymuned?

Mae'r ysgol yn ymwybodol iawn o'i rhan bwysig yn y gymuned ac o'r herwydd mae'n ceisio meithrin cysylltiadau a chyfrannu i weithgareddau ar sawl lefel. Dyma grynodedb o weithgareddau y llynedd.

Ysgol Abercaseg:

- yr ysgol yn derbyn Gwobr Ansawdd Genedlaethol Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru
- cystadlu yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen (gwaith cartref a llwyfan);
- ymweliadau gan PC Meirion Williams;
- ymweliad gan Mr Alun Davies AC (Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus) i weld arferion rhagorol yr ysgol gyda'r Siarter Iaith;
- disgo gwisg ffansi;
- cynnal sesiwn Llofnod Teulu, sef cynllun i ddatblygu'r cysylltiad rhwng yr ysgol a'r cartref;
- rhan o raglen 'Tipi Ni' S4C, ble ffilmwyd rhai o'r plant n atynfeydd yr ardal;
- ymweliadau gan Lori Ni;
- cyswllt busnes llwyddiannus gyda Tesco;
- cyflwynwyd gwybodaeth i rieni am 'Tric a Chlic';
- cynnal Clwb Celf yr Urdd;
- dosbarth Ogwen yn derbyn hyfforddiant 'Kerbcraft';
- prynhawn agored i rieni/gwarcheidwaid plant meithrin;
- taith addysgol i lywodraethwyr yr ysgol;
- dathliadau Dydd Gwyl Dewi, e.e. Dona Direidi wedi dod i agor ffair fentergarwch Dreigiau Caseg;
- blwyddyn 1 a 2 yn gweld atreffectau hanesyddol o Storiell, Bangor;
- diwrnod codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd cael dŵr glân (Water Aid), ble roedd pawb yn gwisgo glas;

- Wythnos Werdd, sef wythnos llawn llawer o weithgareddau, e.e., cystadleuaeth creu het;
- prynhawn i ddysgu am Yr Eidal ble cafwyd rieni Eidaleg i mewn i siarad a blaswyd gwahanol fwydydd Eidalaidd;
- gweld sioe yn Neuadd Ogwen;
- cyflwyniad theatrig gan Theatr Bara Caws;
- Swyddog Diogelwch y Ffyrdd yn rhoi cyflwyniad i'r plant;
- plant blwyddyn 2 yn ymweld mwy nag unwaith ag Ysgol Pen-y-bryn er mwyn ymgyfarwyddo;
- myfyrwyr Ysgol Dyffryn Ogwen ar brofiad gwaith;
- ymweliadau addysgol, e.e. Oriel Môn;
- gwasanaeth ffarwel blwyddyn 2.

Ysgol Pen-y-bryn:

- cystadlu yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen (gwaith cartref a llwyfan);
- ymweliadau gan PC Meirion Williams;
- ymweliad gan Mr Alun Davies AC (Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus) i weld arferion rhagorol yr ysgol gyda'r Siarter Iaith;
- cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd gyda'r côr yn dod yn gyntaf trwy Gymru;
- gweithgareddau amrywiol gan yr Urdd;
- cystadlu yng nghystadlaethau chwaraeon y cylch;
- disgo Calan Gaeaf i'r plant yn yr ysgol a drefnwyd gan 'Gyfeillion yr Ysgol';
- criw ar Radio Cymru fel rhan o gofio trychineb Aberfan;
- cyswllt agos ag Ysgol Dyffryn Ogwen (profiad gwaith, ymweliadau ayyb);
- llawer yn llwyddo gyda chystadleuaeth ddarllen y llyfrgell;
- disgo'r Urdd yn Ysgol Tryfan, Bangor;
- ymweliad gan PC Meirion;
- yr ysgol yn cael ei hachredu gyda Cham 5 Cynllun Ysgolion Iach Gwynedd;
- twrnament 'dodgeball' noddedig, gyda'r arian yn mynd at 'British Heart Foundation' ac i helpu athletwyr olympaidd a pharaolympaidd yn dilyn ymweliad gan Mrs Beverly Jones, sef taflwraig yn Olympics 2012;
- gweld Raslas Bach a Mawr, cynhyrchiad Bara Caws, yn Pontio, Bangor;
- gwasanaeth Nadolig a gynhaliwyd yn Ysgol Dyffryn Ogwen;
- bore coffi MacMillan;
- ymweliad gan Lori Ni;
- taith addysgol i lywodraethwyr yr ysgol;
- ymweliadau gan y nyrs ysgol er mwyn codi ymwybyddiaeth o anghenion meddygol;
- ymweliad gan ddeintydd i flwyddyn 3 fel rhan o'r Cynllun Gwên ac ymweliadau gan Sarah Archer, cynllynydd y cynllun;
- Ffair Lyfrau Scholastic hynod lwyddiannus;
- cyswllt agos ag Ysgol Abercaseg - prynhawn i gyfarfod rhieni/gwarcheidwaid;
- pythefnos mentergarwch Nadoligaidd gyda'r plant yn cynllunio, prisio a chreu nwyddau a'u gwerthu yn ystod un prynhawn;
- holl staff yn ychwanegu at wefan yr ysgol fel bod wybodaeth am ddigwyddiadau'n cael eu rhannu gyda rhieni a gwarcheidwaid;
- ymweliad gan Mr Maldwyn Pryse, ESTYN, i weld arferion addysgu a dysgu gwyddoniaeth a thechnoleg yr ysgol. Bu'n siarad â staff a phlant, yn edrych trwy cynlluniau a llyfrau ac arsylwi gwersi;
- Pythefnos Cymru Cŵl ble dathlwyd Cymru a'i hanes a gwerthwyd cynnyrch Cymreig a oedd wedi'i gynllunio a chreu gan y plant;
- cyngerdd dathlu Dydd Gwyl Dewi yn Neuadd Ogwen;

- grwpiau o blant bl. 3 a 4 a bl. 5 a 6 yn cystadlu mewn cwis lyfrau cenedlaethol. Daeth un grŵp yn drydydd;
- ymweliad gan NSPCC;
- ymweliad gan Mrs Haf Llewelyn (awdures Diffodd y Sêr) i ddysgu am hanes Hedd Wyn;
- ymweliad penwythnos i aelodau Urdd blwyddyn 6 i Glanllyn, Llanuwchllyn;
- Grŵp Effeithiolrwydd yn addysgu plant yr ysgol sut i ddefnyddio'r Chromebooks newydd;
- yr ysgol yn derbyn gwobr aur y Siarter Iaith yn dilyn gwaith y Cyngor Ysgol er mwyn hybu defnydd o'r iaith Gymraeg drwy'r ysgol;
- gweithdy gwyddoniaeth gan Techniquet;
- cymryd rhan mewn cystadleuaeth Y Criw Mentrus a llwyddwyd i fynd i'r rownd rhanbarthol derfynol;
- gemau buarth y Dreigiau Doeth yn cael eu rhaedru trwy'r ysgol er mwyn hybu'r Gymraeg;
- Grŵp Gwyrdd yr ysgol yn plannu blodau o flaen yr ysgol;
- noson gwricwlaidd i rieni ble rhoddwyd cyflwyniadau am rifedd, bwyta'n iach, diogelwch y we, disgwyliadau gwaith cartref ac unedau gwaith iaith yr ysgol;
- taith gerdded noddiedig i gasglu arian tuag at adnoddau addysgol;
- ymweliadau cwricwlaidd, e.e. Amgueddfa Forwrol Y Merswy, Oriol Môn, Eglwys Santes Fair, Amgueddfa Lechi Llanberis, Portmeirion a
- gwasanaeth ffarwel blwyddyn 6.

Beth oedd prif dargedau'r ysgol am y flwyddyn 2016-2017 a sut llwyddwyd i'w cyflawni?

BLAENORIAETH 1: Codi safonau rhifedd ymhellach gyda ffocws ar wella gallu disgyblion i ddehongli a datrys problemau

Gweithredwyd hyn drwy:

- rannu gwybodaeth ac adnoddau mewn cyfarfodydd staff;
- cynllunio wythnosol manwl gyda sylw penodol yn cael ei roi i'r mathemateg pen;
- staff yn mynychu hyfforddiant;
- parhau gyda'r defnydd o fatiau meddwl er mwyn cwmpasu unedau o waith;
- parhau i ychwanegu at y portffolios mathemateg/rhifedd trawsgwricwlaidd;
- unedau o waith mentergarwch ysgol-gyfan – Nadolig a 'Cymru'n Cŵl';
- craffu ar lyfrau mathemateg er mwyn sicrhau cysondeb a safonau uchel;
- addasu cynlluniau er mwyn ateb holl ofynion y Rhaglen Astudio Mathemateg;
- rhoi sylw i grwpiau targed gan gynnig y gynhaliath addas, e.e. Spingboard;
- llunio proffil Lefel 4 a Lefel 5 ar gyfer cymedroli dalgyloch;
- asesu parhaus er mwyn adnabod anghenion unigolion.

Effaith hyn oedd:

- ymateb cadarnhaol i'r profion cenedlaethol;
- dysgwyr yn ymateb yn dda i'r grwpiau targed;
- bron pob dysgwr wedi gwneud cynnydd;
- y ganran sy'n sgorio >125 wedi cynyddu yn llawer o'r blynyddoedd (gyda'r profion Cenedlaethol);
- canlyniadau diwedd y Cyfnod Sylfaen: y ganran a lwyddodd i gael Deilliant 5+ yn 93.9%, sy'n uwch na Gwynedd a Chymru;
- canlyniadau diwedd y Cyfnod Sylfaen: y ganran a lwyddodd i gael Deilliant 6+ yn 57.6%, sy'n sylweddol uwch na Gwynedd a Chymru;

- canlyniadau diwedd Cyfnod allweddol 2: y ganran a lwyddodd i gael Lefel 4+ yn 97.6%, sy'n uwch na Gwynedd a Chymru;
- canlyniadau diwedd Cyfnod allweddol 2: y ganran a lwyddodd i gael Lefel 5+ yn 64.3%, sy'n sylweddol uwch na Gwynedd a Chymru.

BLAENORIAETH 2: Codi safonau llythrennedd ymhellach

Gweithredwyd hyn drwy:

- graffu ar lyfrau a rhannu syniadau ynglŷn â dulliau cynllunio ac ymateb i waith;
- unedau o waith iaith yn cael eu cynllunio'n ofalus a hynny gam wrth gam;
- grwpiau targed yn cydweithio gyda chymorthyddion er mwyn modelu a chael y gynhaliaeth maent ei hangen;
- datblygu uwch-sgiliau darllen trwy'r ysgol;
- rhoi cyflwyniad i rieni am 'Tric a Chlic' er mwyn datblygu'r cydweithio rhwng y cartref a'r ysgol;
- datblygu'r strategaeth DEALI yn Ysgol Abercaseg, sef dull o help rhieni gyda sut i addysgu darllen i'w plant;
- defnyddio 'Darllen 10 munud' yn Ysgol Pen-y-bryn er mwyn datblygu darllen y dysgwyr tu allan i'r ysgol;
- llunio proffil Lefel 4 a Lefel 5 ar gyfer cymedroli dalgylchol;
- asesu parhaus er mwyn adnabod anghenion unigolion;
- dysgwyr yn ymateb i'w gwaith ac i waith cyfoedion ac amser pwrpasol yn cael ei roi i wella a datblygu gwaith;
- cydweithio gydag amrywiaeth o ysgolion y Sir er mwyn creu a rhannu gweithgareddau darllen (o dan arweiniad staff Ysgol Pen-y-bryn).

Effaith hyn oedd:

- dysgwyr yn creu darnau ysgrifennu estynedig o safon, gyda nifer helaeth yn rhai trawsgwricwlaidd;
- gerifa, cystrawennau ac atalnodi'r dysgwyr wedi gwella (dilyn egwyddorion Geirio Gwych) a derbyniwyd adborth positif gan y dysgwyr ynglŷn â'r gweithgareddau;
- canlyniadau diwedd y Cyfnod Sylfaen gyda Chymraeg: y ganran a lwyddodd i gael Deilliant 5+ yn 93.9%, sy'n uwch na Gwynedd a Chymru;
- canlyniadau diwedd y Cyfnod Sylfaen gyda Chymraeg: y ganran a lwyddodd i gael Deilliant 6+ yn 60.6%, sy'n sylweddol uwch na Gwynedd a Chymru;
- canlyniadau diwedd Cyfnod allweddol 2 gyda Chymraeg: y ganran a lwyddodd i gael Lefel 4+ yn 100%, sy'n uwch na Gwynedd a Chymru;
- canlyniadau diwedd Cyfnod allweddol 2 gyda Chymraeg: y ganran a lwyddodd i gael Lefel 5+ yn 69.0%, sy'n sylweddol uwch na Gwynedd a Chymru;
- canlyniadau diwedd Cyfnod allweddol 2 gyda Saesneg: y ganran a lwyddodd i gael Lefel 4+ yn 97.6%, sy'n uwch na Gwynedd a Chymru;
- canlyniadau diwedd Cyfnod allweddol 2 gyda Saesneg: y ganran a lwyddodd i gael Lefel 5+ yn 64.3%, sy'n sylweddol uwch na Gwynedd a Chymru.

BLAENORIAETH 3: Gwella sgiliau TGCh ymhellach drwy'r ysgol er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu cymhwysedd digidol priodol, yn unol â gofynion y Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Gweithredwyd hyn drwy:

- staff y ddwy ysgol yn datblygu Polisi e-Ddiogelwch a'r llywodraethwyr yn ei gymeradwyo;
- datblygu dealltwriaeth y staff o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol newydd;
- defnydd ardechog yn cael ei wneud o'r iPads;
- archebu 60 Chromebook i Ysgol Pen-y-bryn;
- creu cyfrif Google Education i bob dysgwr a Plant Pesda yn addysgu pob dosbarth sut i logio mewn a defnyddio'u cyfrif;
- Plant Pesda yn llunio cytundeb Ysgol-Cartref gyda defnyddio Google Education a Hwb er mwyn sicrhau defnydd diogel a chywir ohonynt;
- defnydd effeithiol yn cael ei wneud o'r ystafell gyfrifiaduron;
- cynlluniau gwaith yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau trawsgwricwlaidd;
- llawer o waith yn cael eu wneud ar ddiogelwch personol ar y we a swyddog addysg yr heddlu yn atgyfnerthu hyn;
- cynnal Clwb TGCh er mwyn datblygu sgiliau sylfaenol dysgwyr blwyddyn 3 (Plant Pesda yng ngofal y clwb);
- Clwb TGCh yn Ysgol Abercaseg, yn ogystal.

Effaith hyn oedd:

- staff a dysgwyr yn deall gofynion y Fframwaith Cymhwysedd Digidol;
- dysgwyr yn hyderus gyda defnyddio amrywiaeth o offer TGCh, e.e. iPads, PCs, Chromebooks;
- cynnydd yn y lefelau uwch yn asesiadau'r staff, e.e. 47.6% wedi cael Lefel 5+ erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2;
- ystod eang o ddarnau gwaith trawsgwricwlaidd yn cael eu creu ar adnoddau TGCh;
- dysgwyr yn ymwybodol o ofynion cynulleidfa wrth gynllunio a chreu darnau o waith;
- dysgwyr yn fwy ymwybodol o beryglon y we a sut i gadw'n ddiogel ar-lein.

BLAENORIAETH 4: Gweithredu cynlluniau, prosiectau, meysydd a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar les y dysgwyr a chau'r bwlch

Gweithredwyd hyn drwy:

- Ysgol Pen-y-bryn yn llwyddo gyda Cham 5 y Cynllun Ysgolion Iach;
- Ysgol Abercaseg yn llwyddo gyda Cham 6 y Cynllun Ysgolion Iach (Y Wobr Ansawdd);
- yr ysgolion yn cael eu hachredu gyda Gwobr Aur Y Siarter Iaith;
- cynnal pythefnos o weithgareddau i ddathlu Cymru ac ar ddiwedd y gwaith cynnal p'nawn o werthu cynnyrch Cymreig roedd y dysgwyr wedi'i greu;
- Ysgol Abercaseg yn cynnal sesiwn Llofnod Teulu, sef cynllun i ddatblygu'r cysylltiad rhwng yr ysgol a'r cartref;
- unedau o waith Masnach Deg wedi digwydd yn y ddwy ysgol;
- cynlluniau ABACh yr ysgol yn sicrhau bod y dysgwyr yn cael ystod eang o brofiadau a gwaith;
- grŵp targed yn datblygu sgiliau bywyd, e.e. coginio, delio ag arian a.y.y b.;
- ymwelwyr yn dod i siarad gyda'r dysgwyr er mwyn ehangu eu dealltwriaeth;

- ymweliadau i ddyfnhau dealltwriaeth y dysgwyr o unedau o waith ac i ddatblygu sgiliau rhyngweithiol a chymdeithasol;
- y dirprwy wedi bod yn rhan o weithgor i greu adnoddau Iechyd a Lles i'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ac y rhain yn cael eu defnyddio'n y ddwy ysgol er mwyn gweithredu cynlluniau;
- cyfranogiad dysgwyr yn amlwg yng ngwaith yr ysgol – Grŵp Effeithiolrwydd, Cyngor Ysgol, Cyngor Chwaraeon, Grŵp Gwyrdd, Sgwad Syniadau, Bysedd Gwyrdd, Dreigiau Caseg;
- y gwahanol grwpiau plant yn gyfrifol dros ddatblygu gwahanol feysydd oddi fewn i'r ysgol;
- chyfnodau wedi'u hamserlennu fel bod cyd-lynwyr yn gallu arwain y gwahanol grwpiau dysgwyr.

Effaith hyn oedd:

- anghenion pob plentyn yn cael sylw, e.e rhan o grŵp targed;
- sgiliau sylfaenol ac allweddol yn cael eu datblygu;
- datblygu hunan-ddelwedd a hunan-hyder y dysgwyr, tra'n datblygu eu dealltwriaeth o ddiogelwch personol, hylendid personol, diogelwch y we ayyb;
- y Cyngor Ysgol/Dreigiau Doeth/Dreigiau Caseg yn hybu'r iaith Gymraeg a'r dysgwyr yn dangos balchder tuag at eu hiaith, eu hanes a'u gwlad;
- y Grŵp Effeithiolrwydd yn datblygu sgiliau TGCh;
- y Grŵp Gwyrdd/Bysedd Gwyrdd yn datblygu edrychiad tu allan i'r ysgolion;
- Cyngor Chwaraeon yn hybu ffitrwydd yn ystod sesiynau chwaraeon ar ôl ysgol ac wedi trefnu twrnament 'dodgeball' llwyddiannus.

BLAENORIAETH 5: parhau i wella strwythurau arwain a rheoli yr ysgol trwy ddatblygu rolau arwain ac atebolrwydd staff a llywodraethwyr

Gweithredwyd hyn drwy:

- y ddwy ysgol wedi ffedereiddio ers Ionawr 2017;
- llunio Corff Llywodraethol newydd o Ionawr 2017 ymlaen a phawb yn ymgyfarwyddo â'u dyletswyddau;
- y pennaeth yn rhannu ei amser yn gyfartal rhwng y ddwy ysgol;
- y dirprwyon yng ngofal yr ysgol yn absenoldeb y pennaeth;
- y llywodraethwyr wedi mynychu taith addysg o'r ddwy ysgol er mwyn gweld safon y gwaith a sut mae'r staff yn cynllunio er mwyn cyrraedd y safonau hyn;
- amserlen ar gyfer cyfnodau digyswllt wedi'i llunio ar gyfer staff addysgu;
- cyfnodau digyswllt wedi'u hamserlennu i'r dirprwyon gyflawni dyletswyddau rheolaethol;
- cydlynwyr yn monitro'u pynciau ac yna'n llunio adroddiadau monitro. Cyflwynir yr adroddiadau hyn i weddill y staff ac i'r llywodraethwyr;
- staff penodol yn arwain ar grwpiau plant er mwyn cyflawni gofynion y Cynllun Datblygu Ysgol (CDY);
- holl staff yn gweithredu gofynion y CDY;
- cymorthyddion yn gyfrifol dros gynnydd eu grwpiau targed ac yn adrodd yn ôl i'r staff addysgu er mwyn gallu cynllunio'n bwrpasol;
- staff yn mynychu hyfforddiant.

Effaith hyn oedd:

- llywodraethwyr â dealltwriaeth dda o'r disgwyliadau a sut mae'r ysgolion yn gweithredu;
- pob aelod o staff yn atebol oherwydd arweinyddiaeth ddostranedig;

- pawb yn deall eu rôl a'u dyletswyddau;
- holl ofynion y CDY yn cael eu gweithredu;
- cydlynwyr yn adnabod rhagoriaethau a meysydd sydd angen eu datblygu.

Uchafbwyntiau'r flwyddyn

Cafwyd ymweliad gan Mr Alun Davies AC (Gweinidog gyda chyfrifoldeb dros y Gymraeg, ar y pryd) er mwyn gweld arferion rhagorol Ysgol Abercaseg ac Ysgol Pen-y-bryn gyda'r Siarter Iaith. Yn ogystal, daeth Y Cyngorydd Dyfrig Siencyn (Is-arweinydd Cyngor Gwynedd, ar y pryd), Y Cyngorydd Geraint Thomas (yr aelod Cabinet dros addysg) a Mr Garem Jackson (Swyddog Addysg Ardal, ar y pryd) i weld gwaith caled y ddwy ysgol. Cafwyd cyflwyniadau gan y plant, dangoswyd y gemau buarth a daeth cyn-ddisgyblion yr ysgolion (o Ysgol Dyffryn Ogwen) i siarad am y gwaith oedd wedi digwydd i hybu'r Gymraeg. Yn ogystal, dangoswyd y portffolios cynhwysfawr i ddangos yr holl waith, e.e. dehongli data holiadur y Siarter Iaith, targedau personol y plant. Cafwyd bore i'w gofio.

Bu'r ddwy ysgol yn dathlu Cymru a Dydd Gwyl Dewi yn ystod pythefnos 'Cymru Cŵl', sef pythefnos o weithgareddau i ddathlu Cymru a'i hanes fel rhan o waith y Siarter Iaith. Cynhaliodd Dreigiau Caseg 'Ffair Siarter Iaith', sef uned o waith ble'r oedd y dysgwyr yn datblygu sgiliau mentergarwch. Lluniodd blant blwyddyn 2 gystadleuaeth er mwyn ennyn balchder gweddill y dysgwyr a bod hyn wedi bod yn llwyddiant. Yn Ysgol Pen-y-bryn, addysgodd bob dosbarth am hanes yr Urdd, hanes y protestio dros yr iaith, hanes Tryweryn a hanes rhai o arwyr Cymru. Hefyd, cafwyd ymwelwyr fel Elwyn Hughes, Anni Llŷn, Tudur Phillips, Neil Maffia, Myrddin ap Dafydd a llawer mwy. Pwrpas yr holl waith oedd i ennyn diddordeb a balchder yn eu hiaith ac yn eu gwlad a'i hanes. Yng nghanol y gwersi hyn, roedd y plant yn cynllunio, cyllido a chreu nwyddau Cymreig er mwyn eu gwerthu yn ystod P'nawn Hwyl. Llwyddwyd i werthu'r holl gynnyrch a gwnaethpwyd elw calonogol.

Yn dilyn gwaith caled ac asesiad allanol trylwyr dros ben, llwyddodd i Ysgol Abercaseg dderbyn y Wobr Ansawdd am eu gwaith gyda'r Cynllun Ysgolion Iach. Dyma gynllun cenedlaethol sy'n edrych ar holl feysydd iechyd, o iechyd meddwl i hylendid personol. Bu'r holl staff yn gweithio'n galed er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn ateb gofynion niferus y cynllun a bu'r plant yn rhan allweddol o'r llwyddiant, yn ogystal. Mae chwe cham i'r cynllun ac mae'r ysgol wedi llwyddo i ennill y prif wobwr, sy'n gamp clodwiw iawn.

Am y tro cyntaf, bu Ysgol Pen-y-bryn yn cystadlu yng nghystadleuaeth Y Criw Mentrus. Cystadleuaeth i ddathlu mentergarwch ydi hi ac mae'n gystadleuaeth cenedlaethol. Mae'r ysgol yn cynnal gweithgareddau mentergarwch ddwywaith y flwyddyn ers rhai blynyddoedd ac felly roedd y gystadleuaeth yn gyfle i ddathlu hynny. Cyflwynwyd cais am y gwaith mentergarwch sy'n digwydd yn ystod y pythefnos Cymru Cŵl, sef pryd mae pob un plentyn trwy'r ysgol yn gwneud gwaith ar elw ac yn costio a phrisio eitemau maent yn eu creu ac yn cyfrifo'r elw dylent ei wneud gan ddefnyddio taenlen Excel. Dewiswyd 4 i gynrychioli'r ysgol a llwyddodd y criw fynd trwodd i'r rownd rhanbarthol derfynol. Yn Venue Cymru, Llandudno, creuwyd arddangosfa o waith yr ysgol a fu'r pedwar yn trafod eu gwaith gyda'r beiriniaid. Llwyddwyd i ennill y wobwr 'Tîm Gorau'.

Llwyddodd gôr Ysgol Pen-y-bryn fynd trwodd i Eisteddfod yr Urdd ym Mhen-y-bont ar Ogwr a chael cyntaf trwy Gymru. Roedd yn ddiwrnod anhygoel ac roedd perfformiad y plant yn un i'w gofio.

Bu'r un cystadlu brwd ag arfer yn Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen yn Nhachwedd 2016. Profwyd llwyddiant mewn nifer o gystadlaethau, a braf o beth oedd cefnogi'r eisteddfod leol unwaith eto.

Cymerodd bob plentyn o flwyddyn 2 i 6 ran ym mhroffion darllen a rhifedd cenedlaethol ym mis Mai, 2017. Cynhaliwyd y profion yn unol â'r gofynion statudol a chafwyd ymateb da iddynt hwy.

Beth oedd canlyniadau diwedd y cyfnodau allweddol?

Disgwylir i ddysgwyr y Cyfnod Sylfaen gyrraedd Deilliant 5 erbyn diwedd blwyddyn 2 a disgwylir i ddysgwyr Cyfnod Allweddol 2 gyrraedd Lefel 4 erbyn diwedd blwyddyn 6. Isod mae canlyniadau haf 2017 y ddwy ysgol, wedi'u cymharu gyda chanlyniadau'r Sir a Chymru.

	Deilliant 5+			Deilliant 6+		
	Ysgol Abercaseg	Gwynedd	Cymru	Ysgol Abercaseg	Gwynedd	Cymru
Cymraeg	93.9%	88.3%	90.9%	60.6%	40.7%	38.1%
Mathemateg	93.9%	90.3%	90.3%	57.6%	39.6%	38.7%
Personol a Chymdeithasol	97.0%	95.3%	94.7%	87.9%	71.3%	61.3%

	Lefel 4+			Lefel 5+		
	Ysgol Pen-y-bryn	Gwynedd	Cymru	Ysgol Pen-y-bryn	Gwynedd	Cymru
Cymraeg	100%	91.1%	91.6%	69.0%	43.8%	41.5%
Saesneg	97.6%	93.2%	91.1%	64.3%	47.0%	44.7%
Mathemateg	97.6%	93.3%	91.6%	64.3%	51.2%	47.0%
Gwyddoniaeth	97.6%	93.8%	92.2%	61.9%	51.2%	46.4%

Dangosydd Cyfnod Sylfaen Ysgol Abercaseg yn 2017 - 87.9%

(Y ganran a gafodd deilliant pump neu well mewn un iaith, mathemateg a phersonol a chymdeithasol)

Dangosydd Pynciau Craidd Ysgol Pen-y-bryn yn 2017 - 97.6%

(Y ganran a gafodd lefel pedwar neu well mewn un iaith, mathemateg a gwyddoniaeth.)

Beth yw targedau'r ysgolion ar gyfer 2017-2018?

Targedau Ysgol Abercaseg ar gyfer 2018 (deilliant 5 neu well):

Cymraeg: 92.3% Mathemateg: 92.3% Datblygiad Personol a Chymdeithasol: 92.3%.

Targed Dangosydd Cyfnod Sylfaen: **92.3%**.

Targedau Ysgol Pen-y-bryn ar gyfer 2018 (lefel 4 neu well):

Cymraeg: 95.0% Saesneg: 92.5% Mathemateg: 97.5% Gwyddoniaeth: 97.5%

Targed Dangosydd Pynciau Craidd: **92.5%**

A oedd presenoldeb y plant yn yr ysgolion yn dda?

Rydym yn falch o ddweud fod presenoldeb y plant yn yr ysgol yn foddhaol iawn, yn enwedig yn Ysgol Abercaseg. Dyma'r ffigwr ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf:

Cyfartaledd y flwyddyn:

Ysgol Abercaseg: 96.1%

Ysgol Pen-y-bryn: 95.6%

Targedau presenoldeb yr ysgolion:

	Ysgol Abercaseg	Ysgol Pen-y-bryn
2017-2018	96.6%	96.0%
2018-2019	96.7%	96.1%
2019-2020	96.8%	96.2%

Beth yw trefniadau diogelwch yr ysgol?

Mae trefniadau diogelwch i'w dilyn yn yr ysgolion ac fe fyddant yn cael eu hadolygu gan y Llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn.

Tân: cynhelir ymarferion tân yn rheolaidd yn y ddwy ysgol, a rheiny o wahanol leoliadau oddi fewn i'r ysgolion. Mae holl aelodau'r staff wedi derbyn hyfforddiant ac yn weithredol yn y broses ymarferion a diogelwch tân. Archwilir y diffoddyddion tân yn flynyddol gan asiantaeth allanol. Profir y goleuadau argyfwng yn rheolaidd.

Mynedfeydd: mae mynedfeydd yr ysgolion wedi eu diogelu gyda chlo digidol a barrau gwthio mewnol. Gellir cael mynediad i'r ysgol trwy ganu cloch yn y brif fynedfa. Diogelir tir yr ysgol gan ffensys a giatau.

Adeiladau: cynhelir arolwg o adeiladau'r ysgolion yn flynyddol gan is-banel o'r Llywodraethwyr ac mae'r Pennaeth a'r dirprwyon yn cadw golwg ar eu diogelwch o ddydd i ddydd gan hysbysu'r awdurdodau o unrhyw beryglon.

Offer: archwilir offer addysg gorfforol yn flynyddol gan asiantaeth allanol. Archwilir holl offer trydanol yn flynyddol gan asiantaeth allanol.

Cymorth Cyntaf: mae dau aelod o staff o'r ddwy ysgol yn gymwys â Chymorth Cyntaf.

Toliedau: mae cyfleusterau toiled ar gyfer y bechgyn, merched a'r staff yn yr ysgolion. Caiff rhain eu glanhau'n ddyddiol gyda'r adnoddau'n cael eu hychwanegu yn ôl yr angen. Yn Ysgol Pen-y-bryn, mae bin hylendid merched yn un o doiledau merched y plant.

Beth yw trefniadau'r ysgol o ran hybu bwyta'n iach?

Mae Ysgol Abercaseg wedi cyrraedd Cam 6 y Cynllun Ysgolion Iach ac wedi'i harchredu gyda'r Wobr Ansawdd. Mae Ysgol Pen-y-bryn wedi'i hachredu gyda Cham 5 y cynllun ac yn gweithredu ar ofynion Cam 6 yn ystod 2017-2018. Golyga hyn fod yr ysgolion yn gweithredu holl ofynion y cynllun, a hynny i safon uchel. Mae gan y ddwy ysgol bolisi bwyd a ffitrwydd ac mae'r ysgolion yn cydymffurfio â gofynion dogfen y Llywodraeth, 'Blas am Oes'. Anogir y plant i gael bocsys bwyd iach. Caiff y plant ddod â photeli dŵr i'w hyfed yn ystod gwersi ac addysgol gorfforol. Cânt ddod â ffrwythau yn unig i'w bwyta yn ystod amser chwarae. Mae siop ffrwythau yn Ysgol Abercaseg. Mae canllawiau am fwyta'n iach yn yr ysgolion yn ei llawlyfrau.

Pa drefniadau a wneir ar gyfer plant anabl?

Caiff camau eu cymryd er mwyn hwyluso mynediad plant anabl i addysg gyflawn. Mae cynllun gweithredu hygrychedd yn weithredol yn yr ysgol, os yw'r angen yn codi. Mae lifft pwrpasol ar risiau Ysgol Abercaseg.

Beth wnaeth yr ysgolion mewn chwaraeon?

Mae'r ysgol yn falch iawn ei bod yn cystadlu ac yn cyfrannu at weithgareddau chwaraeon y dalgylch:

- 'Campau'r Ddraig';
- twrnament pêl-droed;
- mabolgampau'r Urdd (cylch a rhanbarth);
- mabolgampau dalgylch Bangor/Ogwen;
- mabolgampau'r ysgolion (cynhaliwyd un Ysgol Pen-y-bryn yn Ysgol Dyffryn Ogwen);
- gwersi chwaraeon Kick-it;
- pob dosbarth yn ymweld â Phlas Ffrancon am gyfnod o hanner tymor;
- pob plentyn yn cael cyfnod o wersi nofio ym mhwill nofio Bangor;
- gwersi 'Diogelwch Dŵr' i flwyddyn 6 ym mhwill nofio Bangor;
- Cafwyd llwyddiannau lu yn athletau'r Urdd, gyda rhai wedi mynd i gemau talaith y Gogledd ym Mharc Eirias;
- sesiynau rygbi a chriced gan Carwyn o Blas Ffrancon;
- gweithgareddau awyr agored gan 'Anelu'n Uchel';
- gala nofio'r Urdd.

A fu newid i lawlyfr yr ysgol?

Ni fu newid o ran diwyg i lawlyfrau'r ysgolion, dim ond diweddarau'r wybodaeth ynddo. Mae'r llawlyfrau yn cael eu dosbarthu i bob cartref ac ar gael ar wefan yr ysgol.

Pa gamau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod blynyddol diwethaf?

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am gyfarfod.

Beth oedd y camau a gymerwyd i adolygu polisiau'r ysgol?

Adolygwyd ac arwyddwyd y polisiau canlynol: Polisi e-Ddiogelwch, Polisi Codi Tâl, Polisi Presenoldeb a Phrydlondeb, Polisi Amddiffyn Plant, Polisi Grym Rhesymol, Polisi Diogelu Plant, Polisi Mynediad, Polisi Rheoli Perfformiad a Pholisi Iechyd a Diogelwch.

Beth ddylwn wneud os wyf yn poeni am agwedd o fywyd yr ysgol?

Cysylltwch â'r Pennaeth yn syth. Mae hi'n fodlon gwrandao ar unrhyw bryder bob amser. Mae hefyd yn bosib cysylltu ag unrhyw llywodraethwr, yna gall ef/hi dynnu sylw'r Pennaeth i'r mater.

Cyllid

Trafodwyd y gyllideb yn fanwl gyda'r llywodraethwyr.

Os y dymunwch, gellir cael copi o'r gyllideb yn yr ysgol.

.....

Gobeithio bod yr adroddiad hwn wedi bod o ddiddordeb ac yn gymorth i chwi werthfawrogi y gwaith a wneir gan y Llywodraethwyr.

Isod, mae manylion sydd wedi'u paratoi gan y Sir ynglŷn â threfniadau gyda chyfarfodydd i rieni/gwarcheidwaid.

Diolch yn fawr.



CRYNODEB O GANLLAWIAU YNGHYLCH Y DDYLETSWYDD I GYNNAL CYFARFODYDD GYDA RHieni

**Crynodeb yn unig yw'r canllawiau hyn. Dylid cyfeirio at Ganllawiau
Llywodraeth Cymru. Dogfen ganllawiau rhif: 104/2013**

http://www.governorswales.org.uk/media/files/documents/2013-05-09/Parent_meeting_circular_welsh.pdf

- Mae'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru 2013 (adran 94 (13)) yn disodli'r gofyniad blaenorol i gorff llywodraethu gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni.
- Daw'r canllawiau i rym ar 4 o Fai 2013.
- Mae'r Ddeddf yn caniatáu i rieni ofyn am 3 chyfarfod mewn blwyddyn ysgol gyda chorff llywodraethu ysgol eu plentyn.

Gofynion Statudol

- **Rhaid i'r ddeiseb yn galw am gyfarfod gynnwys llofnodion y nifer gofynnol o rieni disgyblion cofrestredig:**
 - rhieni 10% o ddisgyblion cofrestredig neu
 - 30 o ddisgyblion cofrestredig pa un bynnag sydd leiaf. Mewn Ysgolion o dros 300 o ddisgyblion byddai'n haws i rieni fodloni'r gofyniad i gael 30 o lofnodion.
 - e.e., efallai bydd dau riant yn llofnodi'r ddeiseb ond dim ond un plentyn sydd ganddynt yn yr ysgol. Mewn achos o'r fath bydd dau lofnod yn cyfrif fel un "disgybl cofrestredig".
 - e.e., efallai y bydd un riant yn llofnodi'r ddeiseb ond bydd ganddo dri plentyn yn yr ysgol. Golyga hyn y bydd lofnod y rhiant yn cyfrif fel tri "disgybl cofrestredig".
 - Disgwylir y bydd modd i rieni gael gwybodaeth gan swyddfa'r ysgol ynghylch faint o ddisgyblion cofrestredig sydd ar gofrestr ysgol.
- **Rhaid mai amcan y cyfarfod yw trafod materion yn ymwneud â'r ysgol:**
 - Rhaid mai amcan y cyfarfod yw trafod mater sy'n ymwneud â'r ysgol.
 - Rhaid peidio ag ystyried cyfarfod fel ffordd arall o wneud cwyn.
 - Rhaid peidio ag ymdrin â materion personol, unigol sy'n ymwneud â phlentyn neu aelod o staff. Byddai materion o'r fath yn rhywbeth cyfrinachol nad ydynt yn addas i'w trafod yn agored.
 - Gellir trafod mater neu bryder un dosbarth yn unig - cyn belled â bod y nifer trothwy ar gyfer cyflwyno'r ddeiseb wedi ei fodloni - nid oes newid i'r trothwy.

- Pe byddai panel o'r llywodraethwyr yn gwrthod cais i gynnal cyfarfod ar sail nad amcan y cyfarfod yw trafod materion yn ymwneud â'r ysgol, gall rhieni anghytuno a defnyddio'r weithdrefn gwyno i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw.
- **Ni chaiff mwy na thri chyfarfod eu cynnal yn ystod y flwyddyn ysgol yn sgil deiseb gan rieni:**
- Golyga blwyddyn ysgol o ddechrau tymor yr hydref ym Medi un flwyddyn i ddiwedd tymor yr haf yng Ngorffennaf y flwyddyn addysgol honno.
- **Rhaid sicrhau bod digon o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol er mwyn gallu cynnal cyfarfod cyn pen 25 diwrnod:**
- Mae'r ddeddf yn darparu mai dim ond os oes digon o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol i allu cynnal cyfarfod cyn pen 25 diwrnod y gellir galw cyfarfod.
 - Nid yw penwythnosau, gwyliau banc/cyhoeddus, gwyliau ysgol na diwrnodau HMS yn cyfrif tua at y cyfnod 25 diwrnod.
- **Y broses o gyflwyno deiseb**
- Er mwyn i gorff llywodraethu allu bod yn siŵr bod deiseb ddilys wedi'i chyflwyno, disgwylir i'r ddeiseb:
- gynnwys datganiad bod rhieni yn arfer eu hawl i wneud cais am gyfarfod gyda'r corff llywodraethu;
 - roi crynodeb byr o'r materion i'w trafod a'r rhesymau dros alw'r cyfarfod;
 - nodi pa rif yw'r cyfarfod hwnnw yn y flwyddyn ysgol honno, oherwydd mai 3 chyfarfod yn unig y gellir eu cynnal mewn blwyddyn ysgol;
 - nodi'n glir ar frig y ddeiseb grynodeb o'r materion i'w trafod gyda llofnodion y rhieni oddi tanynt.
- **Pan ddaw deiseb i law**
- Rhaid i gorff llywodraethu gynnal cyfarfod os:
- daw deiseb i law gan rieni
 - yw'r corff llywodraethu yn fodlon bod y gofynion statudol wedi eu bodloni.
 - Disgwylir i'r ddeiseb ddod i law'r clerc llywodraethu neu gadeirydd y corff llywodraethu ar gyfer ei hystyried gan y corff llywodraethu, Byddai'n dderbyniol hefyd cyflwyno deiseb at y corff llywodraethu "drwy law" y pennaeth.
- **Sut dylai corff llywodraethu fynd ati i roi rhybudd am gyfarfod?**
- Rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig sy'n cynnwys dyddiad, lle ac amser y cyfarfod ynghyd a'r materion sydd i'w trafod, ar bob hysbysfwrdd ysgol ac mewn lleoedd amlwg ac wrth ymyl pob allanfa o dir yr ysgol. Yn ogystal â hynny dylid anfon llythyr at rieni'r holl ddisgyblion sy'n gofrestredig. Gellir ei anfon drwy law'r disgybl neu'n electronig.
 - Dylai'r cyfarfod fod yn agored i'r pennaeth ac i unigolion eraill mae'r corff llywodraethu am eu gwahodd.
 - Ni cheir codi tâl am ddarparu gwybodaeth i unrhyw un mewn perthynas â'r cyfarfod.

- Dylid cynnal cyfarfod cyn pen 25 diwrnod ar ôl i'r ddeiseb ddod i law.
- Dylid rhoi rhybudd o 10 diwrnod ysgol llawn.

➤ **Cynnal Cyfarfod**

Awgrymir y dylai ysgol nodi gweithdrefn sy'n rhoi sylw i'r materion isod :

- pwy fydd yn cadeirio'r cyfarfod
- y cworwm gofynnol ar gyfer y rhieni a'r llywodraethwyr (disgwylir i'r cworwm ar gyfer rhieni fod yn gyfran o nifer y rhieni sydd wedi llofnodi'r ddeiseb)
- pwy fydd yn cymryd cofnodion (yn ddefnyddol y clerck),
- beth fydd y drefn i rieni gael siarad yn y cyfarfod,
- yr wybodaeth y bydd angen ei hanfon at bob llywodraethwr cyn y cyfarfod,
- y camau i'w cymryd yn dilyn cyfarfod.

➤ **Rhoi gwybod i rieni am eu hawl i gyflwyno deiseb yn gofyn am gyfarfod o da adran 94 o'r ddeddf .**

Disgwylir i gorff llywodraethu roi gwybod i rieni am eu hawl i gyflwyno deiseb i ofyn am gyfarfod.

- Disgwylir i'r ysgol anfon llythyr at y rhieni erbyn diwedd mis Hydref ym mhob blwyddyn ysgol. Gellir defnyddio'r enghraifft ynghlwm.
- Disgwylir i gyrff llywodraethu barhau i gyfathrebu ac ymwneud â rhieni gydol y flwyddyn ysgol
- Disgwylir i ysgol roi gwybod am yr hawl i gyflwyno deiseb i ofyn am gyfarfod yn y Llawlyfr Ysgol ac yn yr Adroddiad Blynnyddol i rieni.

Mae manylion pellach ar wefan Cyngor Gwynedd:

<https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Trigolion/Dogfennau-trigolion/Ysgolion-a-dysgu---dogfennau/Cyfarfodydd-Rhieni-Crynodeb-2013---Canllawiau.pdf>